# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth - Dydd Iau 4 Chwefror 2021

**Gair o groeso a chyflwyniad gan Suzy Davies AS, Cadeirydd y Grŵp**

- Diolchodd SD i Aelodau'r Senedd a'u staff a oedd yn bresennol

**Gair o groeso gan Andrew Campbell, Cadeirydd Cynghrair Twristiaeth Cymru**

- Diolchodd AC i SD am ei chyfnod fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth, a diolchodd iddi am ei gwaith ar ran y sector twristiaeth yn ystod y cyfnod hwn.
- Fel arwydd o ddiolch, gofynnodd AC i SD fod yn aelod anrhydeddus o Gynghrair Twristiaeth Cymru.

**Brasuln o'r heriau y mae'r sector twristiaeth yn eu hwynebu: Adrian Walker, Cynghrair Twristiaeth Cymru**

- Gwersi caled a ddysgwyd yn ystod y pandemig.
- Yn ôl canfyddiadau astudiaeth a wnaed gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU (BEIS) yn gynnar yn 2020, nid oedd lefel ddigonol o adnoddau ar gael i reoleiddio twristiaeth.
- Mae Iechyd a Diogelwch wedi newid o fod yn ddrwg angenrheidiol i fod yn anghenraid diamod.
- Mae cymaint wedi newid yn y dirwedd economaidd a chymdeithasol sydd ohoni.
- Mae cwestiynau ynghylch trafnidiaeth a seilwaith wedi dod i'r amlwg yn y cyfnod hwn.
- Mae angen argyhoeddi twristiaid i ddychwelyd i Gymru.
- A oes angen inni newid ein modelau busnes?
- Mae gennym gynnig unigryw o ran ein tirweddau gwledig ac arfordirol.
- Mae angen inni fod yn barod i groesawu ymwelwyr yn ôl cyn gynted ag y bo modd inni wneud hynny.
- Rhaid inni barhau i dynnu sylw at werth twristiaeth i gymdeithas ac economi Cymru.
- Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru gynnwys Gweinidog twristiaeth pwrpasol a fydd yn canolbwyntio ar y maes hwn yn barhaus.

**Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru – Cynllun Adfer Twristiaeth a Lletygarwch**

Rob Holt, Croeso Cymru

- Diolchodd Rob Holt i SD am ei gwaith gyda'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth.
- Amlinellodd RH y sefyllfa fel y mae.
    - Lefel rhybudd 4.
    - Mae'r broses o gyflwyno'r brechlyn yn newyddion da.
    - Mae heriau yn codi yn sgil yr amrywiadau newydd o glefyd COVID-19.
- Ffocws Llywodraeth Cymru yw sicrhau cymorth ariannol i'r sector.
    - Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio drwy'r ceisiadau.
- Mae cyfarfodydd yn digwydd rhwng pedwar Gweinidog twristiaeth y DU, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar feysydd o bryder cyffredin (y cynllun ffyrlo, TAW ac ati).

Dirprwy Weinidog, Dafydd Elis-Thomas AS

- Mae wedi bod yn bleser gwasanaethu fel y Gweinidog Twristiaeth.
- Cytuno ar yr angen i gael Gweinidog twristiaeth yn y Cabinet.

- Mae mwy i’r rôl hon na hyrwyddo'r diwydiant.
- Mae gweithio gyda'r boblogaeth leol yn allweddol.
- Wedi i DET ymddeol, bydd yn parhau i weithio yn y maes hwn.

Cyflwyniad gan Claire Chappell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Marchnata (Croeso Cymru) (mae copi o'r cyflwyniad hwn ar gael ar gais)

- Ffocws: Cynllunio ar gyfer yr adferiad
- Mae cynlluniau adfer ar gyfer rhannau eraill o'r DU eisoes wedi’u cyhoeddi neu ar fin cael eu cyhoeddi:
    - Lloegr – 22 Chwefror 2021
    - Yr Alban – Hydref 2020 (cynllun yn cael ei adolygu yn rheolaidd)
- Bydd cynllun adfer llawn ar gyfer Cymru.
    - Bydd twristiaeth yn rhan o’r cynllun hwn.
- Bydd “Croeso i Gymru” yn llwyfan lansio ar gyfer y sector = ymdeimlad clir o gyfeiriad y daith hon.
- Fframwaith partneriaeth.
- Mae'n anodd gwneud “Map ffordd tuag at Adferiad” yn sgil natur anrhagweladwy COVID-19.
- Cynhaliwyd uwchgynhadledd rithwir fel rhan o'r gwaith ymgysylltu ynghylch sut i roi’r adferiad ar waith.
- Pennu amcanion a rennir / cynllun chwe phwynt Llywodraeth Cymru.
- Angen lobïo ar lefel Llywodraeth y DU.
- Ailgodi'r wlad.
- Cydnabod y ffactorau tymor hwy mewn rhai meysydd y mae angen atebion pwrpasol iddynt.

**Sesiwn holi ac ateb gydag aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth, Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog**

**C1: Jim Jones** (Is-gadeirydd, Cynghrair Twristiaeth Cymru) – Mae angen llinell amser / dyddiadau agor ar y sector. Mae'n bwysig bod hyn yn unol â’r drefn yn Lloegr, gan fod 80 y cant o rai busnesau twristiaeth yng Nghymru yn denu eu masnach o dros y ffin.
Ymateb:

- RH – Mae’r cynllun o ran y lefelau rhybudd yn glir.
- Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail sefyllfa iechyd y cyhoedd yng Nghymru – nid oes modd addo y bydd y trefniadau yn cael eu halinio.
- Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gweinidogion twristiaeth y pedair gwlad yn parhau.
- DET: Mae penderfyniadau ynghylch y llinell amser yn dibynnu’n llwyr ar y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd. Ni allwn addo pethau nad oes modd inni eu cyflawni.

**C2: Mark Bond** (Micro Tourism Wales) – Nid oes diben agor os na all bobl o Loegr ddod yma. Mae yna wyddoniaeth yn bodoli sy’n caniatáu inni wneud rhagfynegiadau ynghylch COVID-19. Mae angen i'r sector twristiaeth weld y rhagfynegiadau hyn, gan y byddent yn helpu busnesau i gynllunio.
Ymateb:

- DET: Ni allwn lunio polisi ar sail rhagfynegiadau.
- RH: Mae natur anrhagweladwy y sefyllfa hon yn parhau.
- Cydnabuwyd nad oes modd rhoi sicrwydd.
- CC: Byddai modd darparu cymorth drwy gynllunio senarios.

**C3: Val Hawkins** (Twristiaeth Canolbarth Cymru) – Yn falch o weld pwysigrwydd y sector yn cael ei gydnabod. Codwyd pryderon ynghylch papur Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ynghylch ail gartrefi a'r goblygiadau ar gyfer llety gwyliau hunanddarpar. Bu dryswch hefyd ynghylch y grantiau ardrethi annomestig yn y maes hwn, ac mae rhai busnesau wedi methu â chael mynediad atynt.
Ymateb:

- Mae RH yn gweithio gyda'r Gweinidog ar y mater hwn.
- Mae trafodaethau ynghylch yr angen am ddiffiniad o 'ail gartref'.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng cymunedau a thwristiaeth.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cynnwys yr holl randdeiliaid yn y sgwrs hon.
- Mae angen mwy o ymchwil ynghylch y niferoedd dan sylw.
- Cofrestru statudol
    - Cododd Val bryderon ynghylch y ffaith y byddai angen gweithredu hyn ar lefel genedlaethol, yn hytrach nag ar lefel awdurdodau lleol, gan fod gormod o ddehongli yn digwydd.
    - RH: Mae'r ddwy farn yn bodoli.

**C4: Alistair Handyside** – Sut yr ydym yn cynnwys pawb yn y drafodaeth ar ail gartrefi? Mae angen taro'r cydbwysedd iawn. Mae cymaint o fusnesau hunanddarpar nad ydynt yn cael cymorth gan eu hawdurdod lleol. Ei ddealltwriaeth yw nad yw'r cyllid grant yn cael ei wario'n llawn.
Ymateb:

- RH: Mae'r cyllid yn dod o wahanol ffynonellau, felly nid yw mor syml â dweud nad yw'r arian yn cael ei wario.

**C5: Darren Millar AS** – (a) Mae'n bwysig bod sector twristiaeth Cymru yn agor ar yr un pryd â gweddill y DU – nid ydym am ailadrodd y sefyllfa a welsom y llynedd. (b) Trafodaethau ynghylch dyddiadau gwyliau ysgol yn newid yng Nghymru – gallai hyn arwain at heriau i'r sector twristiaeth. (c) Bil Aer Glân – awgrymiadau ynghylch system prisio ffyrdd, a fyddai'n ei gwneud hi'n ddrytach i ymwelwyr ddod i Gymru.
Ymateb:

- RH: Codwyd y mater o wyliau ysgol yn Fforwm De Cymru, ac mae sylwadau wedi cael eu rhannu â chydweithwyr ym maes addysg.
- DET: Yn cael cyfarfod ar ddeddfwriaeth y prynhawn yma, ond nid yw wedi gweld unrhyw beth ynghylch y syniad o brisio ffyrdd yn cael ei ddatblygu.

**C6: Ashford Price** – Mae aelodau o Gymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru wedi codi'r mater ynghylch nifer y staff sy'n gadael y sector. Mae'r ffaith nad yw busnesau twristiaeth wedi gallu rhoi unrhyw sicrwydd iddynt eleni wedi cael effaith bellach ar y sefyllfa hon.
Ymateb:

- RH: Yn edrych ar y mater o gefnogi iechyd meddwl yn y sector, gan ddeall bod pobl yn ceisio gofalu am eu staff.
- Gweithio gyda chynrychiolwyr o'r sector sgiliau i weld sut y gellir llenwi'r bylchau wrth inni symud ymlaen.

Jason Thomas: Bydd tudalen 16 o Gynllun Rheoli Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n chwilio am fap ffordd. Mae gormod o risg wrth wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ragolygon a

rhagfynegiadau. Yn y pen draw, ni fyddwn yn darparu dyddiadau pendant gan nad oes unrhyw sicrwydd y gallwn gadw atynt.

**C7: Shoko Doherty** – Yr economi sy’n dod i mewn a’r adferiad rhyngwladol. A ydym yn edrych ar brofion COVID-19 ynghyd a system o ynysu ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd y wlad fel ffordd o agor i fyny?
Ymateb:

- DET: Dylid ysgrifennu at y Gweinidog Addysg er mwyn codi pryderon penodol ynghylch y sector ysgolion rhyngwladol.
- CC: Bydd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn canolbwyntio ar gysylltiadau rhyngwladol, a bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda sefydliad Visit Britain ar y gyfundrefn frechu ac ar ba wledydd y gall eu dinasyddion deithio i Gymru.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | **Suzy Davies AS** |
| **Ysgrifennydd** | **Mia Rees (Swyddfa Suzy Davies AS)** |
| | |
| **Aelodau o'r Senedd (a'u staff)** | Darren Millar AS |
| | Russell George AS |
| Swyddfa Helen Mary Jones AS | Sion Jones |
| Swyddfa Janet Finch-Saunders AS | Ryan Ellis |
| Swyddfa Mandy Jones AS | Clare Eno |
| | |
| **Busnesau Twristiaeth** | |
| **Cynghrair Twristiaeth Cymru** | **Andrew Campbell (Cadeirydd)** |
| **Cynghrair Twristiaeth Cymru** | **Adrian Greason-Walker (Eiriolwr Polisi)** |
| Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain (BH&HPA) | Helen Charlesworth |
| Y Clwb Gwersylla a Charafanio | Simon McGrath |
| Y Clwb Carafanau a Chartrefi Modur | Emma Mcquillan |
| Twristiaeth Gogledd Cymru | Jim Jones |
| Twristiaeth Canolbarth Cymru | Val Hawkins |
| Cymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru | Fiona Peel |
| Grŵp Gwestai Retreats | Paula Ellis |
| Prosiect y Genhedlaeth Dwristiaeth Nesaf | Louise Dixey |
| Glannau Aberdaugleddau | Lucy Wonnacott |
| Micro Tourism Businesses Wales | Mark Bond |
| Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru | Ashford Price |
| Bythynnod Gwyliau Bannau Brycheiniog | Barbara Griffiths |
| Croeso i Sir Benfro | Emma Thornton (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Celtic English Academy | Shoko Doherty |
| Grŵp Marchnata Twristiaeth | Matthew Evans |
| The Professional Association of Self-Caterers UK | Alistair Handyside |
| Bluestone | Abigail Wye |
| Gwesteion | George Reid |
| | Carl Shaw |
| | Ryland Doyle |
| | Simon Pickard |
| | |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth | Dafydd Elis-Thomas AS |
| Croeso Cymru | Rob Holt |
| | Jason Thomas |
| Dirprwy Gyfarwyddwr, Marchnata (Croeso Cymru) | Claire Chappell |

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Jane Rees-Baynes (Cadeirydd, Croeso i Sir Benfro), Dai Lloyd AS, Rhun ap Iorwerth AS, Mark Isherwood AS, a Llyr Gruffydd AS.